**Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**

—

**Legislation, Justice and Constitution Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddDCC@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddDCC
0300 200 6565

—

**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddLJC@senedd.wales
senedd.wales/SeneddLJC
0300 200 6565

Y Gwir Anrhydeddus Elin Jones AS
Llywydd a Chadeirydd y Pwyllgor Busnes

31 Ionawr 2025

Annwyl Elin

**Memoranda cydsyniad deddfwriaethol ar y Bil Hawliau Cyflogaeth**

Yn ei gyfarfod ar 27 Ionawr 2025, bu'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad yn ystyried y memorandwm cydsyniad deddfwriaethol a'r memorandwm cydsyniad deddfwriaethol atodol a osodwyd gan Lywodraeth Cymru mewn perthynas â'r Bil Hawliau Cyflogaeth, ar 5 Rhagfyr a 19 Rhagfyr 2024, yn y drefn honno.

Fel rhan o'n hystyriaeth, buom yn ystyried darpariaeth a nodwyd gan Lywodraeth Cymru yng nghymal 26 o'r Bil. Yn y memorandwm cydsyniad deddfwriaethol, mae'r Gweinidog dros Ddiwylliant, Sgiliau a Phartneriaeth Gymdeithasol, Jack Sargeant AS, yn datgan bod cymal 26 yn mewnosod adran 78A newydd yn *Neddf Cydraddoldeb 2010*. Mae'r adran newydd hon yn galluogi gwneud rheoliadau sy'n ei gwneud yn ofynnol i gyflogwyr a chyrff cyhoeddus penodol baratoi a chyhoeddi "cynllun gweithredu cydraddoldeb" yn ymdrin â materion o ran tegwch rhwng y rhywiau. At hynny, mae'r Gweinidog yn datgan bod y rhan fwyaf o gyrff cyhoeddus datganoledig Cymru wedi'u heithrio o'r ddarpariaeth hon, ond mae Comisiwn y Senedd (o dan ei enw blaenorol, Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru) o fewn cwmpas y Bil.

Rydym wedi ysgrifennu ar wahân at y Gweinidog i ofyn am ragor o wybodaeth mewn perthynas â'r ddarpariaeth hon, ond byddem hefyd yn ddiolchgar pe gallech nodi unrhyw ymgysylltiad yr ydych wedi'i gael â Llywodraeth y DU, neu Lywodraeth Cymru, ar y cymal hwn, ac amlinellu unrhyw farn sydd gennych, o bosibl, ar gynnwys y ddarpariaeth.

Byddwn yn ddiolchgar o gael ymateb i'r cwestiynau hyn erbyn dydd Iau 13 Chwefror 2025. Fe fyddwch yn ymwybodol bod y Pwyllgor Busnes wedi pennu dyddiad cau ar gyfer adrodd, sef 7 Mawrth 2025 ar gyfer y memoranda.

Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at y Gweinidog dros Ddiwylliant, Sgiliau a Phartneriaeth Gymdeithasol, Cadeirydd Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig a Chadeirydd y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol.

Yn gywir,

Mike Hedges

Mike Hedges
Cadeirydd